Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**
—
Welsh Parliament
**Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee**

**Lesley Griffiths AS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

23 Gorffennaf 2020

Annwyl Lesley,

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Pysgodfeydd**

Fel y gwyddoch, mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Pysgodfeydd ('y Bil') wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ('y Pwyllgor') i'w ystyried. Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 24 Medi 2020.

Mae'r terfyn amser hwn yn darparu cyfnod craffu o dair wythnos fusnes, sy'n golygu mai ychydig iawn o amser fydd gan y Pwyllgor i drafod y Memorandwm Atodol a chytuno ar ei adroddiad. O ran y broses o bennu terfynau amser ar gyfer cyflwyno adroddiadau, rydym yn cydnabod bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud hynny yng nghyd-destun amserlen y Bil yn Senedd y DU. Fodd bynnag, o gofio nad yw'r Bil eto wedi bod yn destun ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin, rydym yn siomedig bod Llywodraeth Cymru o'r farn nad oedd modd pennu cyfnod craffu mwy priodol.

At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyfaddef nad yw eto wedi cael cyfle i ystyried goblygiadau rhai o'r gwelliannau a wnaed i'r Bil yng nghyd-destun polisi a datganoli. Mewn achosion lle ceisir cydsyniad, nid yw'n afresymol disgwyl i Lywodraeth Cymru egluro i'r Senedd beth fydd goblygiadau'r darpariaethau dan sylw.

Felly, rydym am i chi ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch goblygiadau'r gwelliannau a wnaed i gymalau 1, 18, 27 a 48 yng nghyd-destun polisi a datganoli. Rydym yn dymuno cael y wybodaeth hon yn ysgrifenedig, a hynny **erbyn 3 Medi fan bellaf**.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddNHAMG@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales
0300 200 6565

Rydym hefyd am ichi ymateb i'r materion a ganlyn:

Mae nifer o'r diwygiadau i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir y darperir ar eu cyfer yn Atodlen 10 yn dileu'r cyfeiriadau a wneir o fewn y ddeddfwriaeth uniongyrchol honno at weinyddiaeth(au) pysgodfeydd, ac yn eu disodli â chyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol.

1. **A allwch chi egluro'r rhesymeg dros hyn? Yn benodol, pam mae'r swyddogaethau perthnasol yn cael eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol yn hytrach na'r gweinyddiaethau pysgodfeydd o fewn darpariaethau sy'n ymwneud â dilyn neu weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, sy'n fater datganoledig?**

Ar hyn o bryd, rhaid pennu cyfleoedd pysgota ym mhob achos er mwyn sicrhau y bydd llai na 5 y cant o debygolrwydd y bydd biomas y stoc silio yn disgyn yn is na'r terfyn perthnasol. Ar y sail hon, ni fyddai modd rhoi unrhyw gyfle pysgota pe bai'r stoc yn is na'r terfyn perthnasol.

Mae paragraffau 6(4) a 7(4) o Atodlen 10 yn diwygio, yn y drefn honno, Erthygl 4(6) o Reoliad (UE) 2018/973 (sefydlu cynllun amlflwydd ar gyfer stociau dyfnforol ym Môr y Gogledd) ac Erthygl 4(6) o Reoliad (UE) 2019/472 (sefydlu cynllun amlflwydd ar gyfer stociau sy'n cael eu pysgota yn Nyfroedd y Gorllewin a dyfroedd cyfagos). Effaith y diwygiadau hyn fydd cyfyngu'r broses o gymhwyso Erthygl 4(6) o'r ddau Reoliad (UE) dan sylw i amgylchiadau lle mae biomas y stoc silio yn uwch na'r terfyn perthnasol.

2. **A fyddai modd i chi egluro a fyddai hyn yn caniatáu i gyfleoedd pysgota gael eu rhoi lle mae'r stoc yn is na'r terfyn perthnasol?**

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,

Mike Hedges

**Mike Hedges AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.